# Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011

**2011 mccc 3**

## 6 Dehongli

(1) Yn y Mesur hwn—

ystyr “awdurdod lleol” (*“local authority”*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru,

ystyr “y Cynulliad” *(“the Assembly”)* yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

“Deddf 1984 ” *(“the 1984 Act”)* yw Deddf Adeiladu 1984 (p.55),

ystyr “gwaith adeiladu” (“*building work*”) yw gwaith i godi, estyn neu addasu adeilad,

**[**[F1]“mae i “fflat” (“flat”) yr ystyr a roddir i “flat” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Adeiladu 2010(1)”**]**

**[**[F1]“mae i “tŷ annedd” (“dwelling-house”) yr ystyr a roddir i “dwelling-house” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Adeiladu 2010”**]**

“hysbysiad corff cyhoeddus” (*“public body’s notice”*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984,

“hysbysiad cychwynnol” (*“initial notice”*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984,

ystyr “perchennog” (*“owner”*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Neddf 1984,

ystyr “preswylfa” *(“residence”)* yw—

(a) tŷ annedd,

(b) fflat,

(c) cartref gofal (pan fydd i “cartref gofal” (*“care home”)* yr un ystyr ag sydd iddo yn Neddf Safonau Gofal 2000 (p.14))

(d) **[**[F2]neuadd breswyl;

(e) ystafell neu gyfres o ystafelloedd, nad yw’n dŷ annedd nac yn fflat ac sy’n cael ei defnyddio gan un neu fwy o bersonau i fyw a chysgu ynddi ac sy’n cynnwys ystafell mewn hostel neu dŷ preswyl, ond nid yw’n cynnwys—

(i) ystafell mewn gwesty;

(ii) ystafell mewn hostel sy'n cael ei darparu fel llety dros dro i'r rhai hynny sy'n preswylio fel arfer yn rhywle arall;

(iii) ystafell mewn ysbyty neu sefydliad tebyg arall sy'n cael ei defnyddio fel llety i gleifion;

(iv) ystafelloedd mewn carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc;

(v) mangre ar gyfer lletya personau sydd wedi eu remandio ar fechnïaeth;

(vi) mangre ar gyfer lletya personau y gall fod yn ofynnol iddynt, drwy orchymyn prawf breswylio yno, neu**]**

(f) **[**[F3]cartref plant, pan fo gan "cartref plant" yr ystyr a roddir i "children's home" yn adran 1 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(2) ond nid yw'n cynnwys—

(i) sefydliad o fewn y sector addysg bellach fel y'i diffiniwyd gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(3);

(ii) sefydliad a ddefnyddir i letya plant at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a ganlyn yn unig—

(aa) gwyliau;

(bb) gweithgaredd hamdden, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol;

ar yr amod nad oes dim un plentyn yn cael ei letya yno am fwy na 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis;

(iii) sefydliad troseddwyr ifanc, a**]**

lle y mae adeilad yn cynnwys un breswylfa neu fwy, yn cynnwys unrhyw ran o'r adeilad hwnnw y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan y rheini sy'n byw yn y breswylfa honno neu'r preswylfeydd hynny at ddibenion atodol i'r feddiannaeth honno sy'n gyffredin â'i gilydd neu â defnyddwyr eraill yr adeilad,

ystyr "rhagnodwyd" *("prescribed")* yw wedi'i ragnodi gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru,

ystyr "rheoliadau adeiladu" *("building regulations")* yw rheoliadau a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1984,

ystyr "swyddog awdurdodedig" (*"authorised officer"*) yw swyddog awdurdod lleol sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw, boed yn gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn materion o fath arbennig neu mewn mater penodol, ac

ystyr "swyddog priodol" (*"proper officer"*), mewn perthynas â phwrpas ac ag awdurdod lleol, yw swyddog a benodwyd at y diben hwnnw gan yr awdurdod hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3), caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio diffiniad "preswylfa" yn is-adran (1) drwy—

(a) ychwanegu dosbarth o fangreoedd preswyl, neu

(b) diwygio'r disgrifiad o ddosbarth o fangreoedd preswyl sydd eisoes yn bodoli.

(3) Yn is-adran (2), ystyr "mangreoedd preswyl" ("*residential premises*") yw'r ystyr a roddir iddo yn—

(a) paragraff 7 o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), unwaith y bydd mewn grym, neu,

(b) tan hynny, Mater 11.1 yn Rhan 1 Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

## Diwygiadau Testunol

**F1** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu mewnosod (30.4.2014) gan Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2723), erglau. 1(2), **2(2)**

**F2** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu hamnewid (30.4.2014) gan Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2723), erglau. 1(2), **2(3)(a)**

**F3** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu mewnosod (30.4.2014) gan Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2723), erglau. 1(2), **2(3)(b)**

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 6 mewn grym ar 8.4.2011, gweler **a. 9(2)(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/04/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Adran 6.